

Y Wennol


Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 7 Rhif 7

Yn rhad ac am ddim

Hydref 2026



Dysgwch wrth Ddarllen

Fast Track

gan Rob Evans

I don't think you can ever learn a language without including books. Books are packed with the grammar and vocabulary that you have learned and that grammar that you will learn in the future and the more you read the more grammar you can accept without question. I often find that learners are unclear about how to start a sentence. A book is full of sentences, so read any book and you should not have that problem again. Mutations, the bane of all learners is all there and the more you read, the more that you can judge the mutation necessary. Spelling is there too and the plurals of nouns.

A book will silently introduce you to grammar, the rules of grammar in action.

Have you ever thought it wonderful that you don't have to be able to read to learn a language, grammar and vocabulary can be learned without the ability to read. Yes, our brains are programmed to learn our first language and that same program is still there throughout your life. With the help of context your brain can guess the meaning of a word that you haven't come across before. It may not be accurate at first guess but every time you come across that word its context will start to correct that first guess and one day, Eureka! It will have settled on the real meaning.

A language is full of vocabulary, can you believe that the Welsh Academy English – Welsh Dictionary has over 1700 pages, and that is only going from English to Welsh? When this was published in 1995 I ran a printing business and it was mentioned in one of the printing magazines. I think it only came to people's attention because

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

the binding was done by a company in Bath. The comment made was that the journalist couldn't imagine that there were that many words in the Welsh language!

I am proud to say that there are!

In case you are worried that you have to learn them all – don't, they are there if you want them and you can be happy to have all that you need. And what is 'all that you need?' How many English words are there stored in your head? Who knows? It doesn't matter, as long as those words have reached their way into your brain, yes, into your brain and not the A4 note book you carry with you. The more words you write in your book, the more difficult it is to find them. That book does not have a connection with your brain.

But a book with a story has. When you read a book, the story develops and you drift in further and further. There is a plot and you are eager to know how it ends. It gives you pleasure.

But it gives you more than that! All the time you are reading your brain is working hard not only digesting the story but also it is guessing the meanings of those unfamiliar words. You could look them up in the dictionary but that would slow you down and take away the pleasure of the story. Read on! The brain can do it all for you. It won't happen straight away but it will, without you knowing.

So, when you read, read straight through, don't hesitate – your brain needs the context of the whole sentence. When you have finished the book {most books for learners are not long so try your best to read them in one go} sit back and go through the story in your mind. After a few days read the book again. This time you still have the context of the sentences but also the context of the whole story. When you have finished, sit back again and you will have a better understanding of the story.

Now read another book in the same way and feel happy in the fact that you are experiencing grammar at work, things will become clearer and, without you knowing you are on the 'fast track'.

It seems that 'not many people know this' - *Michael Caine*

OK so how do you start?

You may have noticed on the front page there is a new book available and it is aimed at those of you that are beginners.

It has important qualities:

It was written by someone who has also learned Welsh, in fact she won 'Welsh Learner of the Year' in Conway at The National Eisteddfod in 2019. Her main interest is storytelling.

This book contains six stories, each from a different part of Wales, they are not long stories so ideal for those of you without a great deal of time on your hands.

It does not have a bias towards the North or the South.

Once you've mastered this book there are two more books by Fiona so that you can make further progress:



Y Môr

Ceffylau


.....

Reading really puts fuel in your tank and once you get under way and you start to get used to grammar, mutations and vocabulary, everything will become clearer.

If you are really serious about learning Welsh why not do it the enjoyable way? Invest £7 in this book or ask for it in your local library. Don't forget Christmas is approaching so a word in someone's ear may provide you with a valuable surprise under the Christmas tree. Then you can open your mind, read it in the way I've described and change your life!



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru



My Way to Welsh
A complete Welsh course for home learning

HEINI GRUFFUDD

A Welsh course - all in one book!
A comprehensive 90-lesson self-study Welsh-language course with basic dictionary. In full colour with an attractive modern design and illustrated throughout.
Double CD available to buy separately.
And also you can download FREE MP3 audio files to listen to.
A good opportunity for you to learn in your own time, at your own speed.

Available from your local Welsh bookshop or www.ylolfaf.com **£19.99**

My way to Welsh
Heini Gruffudd

You can use this book as a supplement to your course book.
As a fill-in if you are unable to get to the class.

To familiarise you to north Welsh words and idioms to you in the South and South Welsh to you in the north. You will benefit from familiarising yourselves with the other dialects.
After all it's all the same language - honestly!!

**Cymdeithas Gymraeg
Llandeilo Ferwallt**

Rhaglen 2026/27

19eg Hydref
Delyth Jenkins – Delyth a'i Thelyn

16eg Tachwedd
Rhys Williams – Hanes Cynnar Ysbyty Abertawe

14eg Rhagfyr
Cinio Nadolig

18fed Ionawr
Heini Gruffudd - Ieuan Ddu a'r Gymraeg yn Abertawe

15fed Chwefror
Brian Davies – Cerddwr Cyffrous

15fed Mawrth
Siwan Davies – Yr Argyfwng Hinsawdd

19eg Ebrill
Martin Jones – Y Cymry a Llundain 2

17eg Mai
Prys Morgan - Darlith Ddarluniadol

21ain Mehefin
Côr Tŷ Tawe

Cynhelir cyfarfodydd yn Neuadd Gymuned Murton am 19.00 ac mae croeso mawr i bawb.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Mike Rees

Helo Pawb,

Mike Rees dw i. Dw i'n byw ym Mlaenporth yng Ngheredigion gyda fy ngwraig, Linda. Symudon ni yma o Swindon yn Lloegr yn 2024 achos dw i wedi ymddeol ac eisiau dod yn ôl i Gymru achos dw i'n dod o Sgiwen, ger Castell Nedd yn wreiddiol. Gweithiais i fel brocer morgeisi am ddeugain mlynedd a ro'n ni'n byw yn Lloegr lle cafodd ein tair merch eu geni.

Dw i'n mwynhau chwaraeon, yn enwedig rygbi, pêl-droed a chriced ond dw i ddim yn chwarae mwyach achos fy mhengliniau! Dw i'n cefnogi Clwb Rygbi Castell Nedd, hefyd, Manchester United ac mae gen i docyn tymor i'r ddau glwb. Wrth gwrs, dw i'n cefnogi Morgannwg yn y criced!

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers mis Medi 2024. Dechreuais i ddrwy wneud cwrs lefel Mynediad yng Nghaerfyrddin ond dw i'n dysgu Cymraeg yng Nghaerwedros nawr achos ei fod yn agosach. Diolch i'r drefn, dw i wedi pasio arholiadau Mynediad a Sylfaen ac wedi dechrau'r cwrs Canolradd yr wythnos diwethaf.

Es i Brifysgol Aberystwyth ym mis Gorffennaf i wneud cwrs dwys am y mis, mae hi'n anodd ond nes i fwynhau'r cwrs a dw i'n gobeithio mynd yn ôl y flwyddyn nesa. Dw i'n mwynhau siarad Cymraeg gyda fy ffrindiau yn fy ardal, yn enwedig yn nhafarn, Penllwyndu yn Llangoedmor ger Aberteifi.

Dw i'n mynd i barhau dysgu Cymraeg achos dw i eisiau siarad dim ond Cymraeg gyda fy ffrindiau ond dw i'n meddwl y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer!

Paid â bod yn ddiymhongar Mike, mae'n sunio fel bod ti ar y ffordd yn barod! - Rob

To learn Welsh thoroughly and quickly you need to use your tongue, eyes, ears and fingers. Your tongue to speak, your eyes to read, your ears to hear and your fingers to write.

Too often I meet learners who think that only the speaking is important, this is not true. These four elements work and link together to consolidate your learning. Speaking will probably be the major part and the other three will help you by widening your vocabulary, to spell instinctively, pronounce properly and to put things together without that external pressure you have when you are in conversation.

So, as well as practising your conversations force yourselves to do the other three:

Listen to Radio Cymru, not all the programmes will suit you but give them all a try, pick out the best and listen to it regularly. At first you will be lost but you should expect that, persevere and slowly but surely you will succeed.

Read books at your own level. There are many excellent books available for learners. Simple to read at first but keep on and you'll find a level where you can really get lost in what you are reading.

Use Y Wennol as an opportunity for you to write something and, whatever you write, I will make sure that it's correct. You will feel pride when you see your work published.

So don't be satisfied with practising a quarter of your skills, jump in and do them all. And, just to help me write me a simple story about yourself!

I'm looking forward to reading it!

 www.hwyliath.cymru
hwyliath@gmail.com

Hwyl yr Hydref



www.hwyliaith.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Noddfa, Noddfa!

gan Hywel Morgan



Yn 1477, daeth troseddwr o'r enw Ieuan Glas i Eglwys Cynwyd Sant yn Llangynwyd, yn agos i Faesteg heddiw, i ofyn am noddfa.

Yn Lloegr a Chymru yn yr Oesoedd Canol, os oedd rhywun yn cael ei gyhuddo o drosedd, doedd neb yn gallu eu dal nhw os oedden nhw'n rhedeg i unrhyw eglwys leol i ofyn am noddfa. Roedden nhw'n ddiogel am hyd at 40 diwrnod.

Yn ystod y 40 diwrnod hyn, roedd rhaid i'r person aros yn yr eglwys. Roedd dau opsiwn gyda nhw:

Ildio i fynd i dreial, ac wynebu marwolaeth os caiff ei gael yn euog.

Gadael y wlad am byth.

Roedd gofalu am rywun mewn noddfa yn waith mawr i'r bobl leol. Roedd rhaid iddyn nhw fwydo'r person a hefyd gwarchod yr eglwys, dydd a nos, i atal y person rhag diane.

Os oedd y person yn llwyddo i ddianc, roedd rhaid i'r holl bentref dalu dirwy fawr.

Mae llawer o bobl yn meddwl bod rhaid i chi gyffwrdd cnocer drws arbennig (cnocer noddfa) i fod yn ddiogel, ond mewn gwirionedd, dim ond camu ar ris yr eglwys oedd rhaid i chi ei wneud.

Dydyn ni ddim yn gwybod pa drosedd wnaeth Ieuan Glas, ond rydyn ni'n gwybod ei fod wedi dianc! Oherwydd iddo fe redeg i ffwrdd, cafodd y bobl leol ddirwy o 100 swllt, swm enfawr o arian bryd hynny.

Sut rydyn ni'n gwybod hyn? Mae dogfen swyddogol o 5 Gorffennaf 1477 yn dal i fodoli heddiw yn Siarteri Margam. Mae'r ddogfen hon gan Esgob Llandaf yn rhyddhau rhai pobl yn y plwyf rhag gorfod talu eu rhan nhw o'r ddirwy fawr.

Oes straeon tebyg yn eich ardal chi?

Oh Vienna!



Penwythnos hir ym mhrifddinas Awstria

gan Sarah Croft

Roedden ni wedi cyrraedd maes awyr Vienna ar brynhawn dydd Iau ym mis Gorffennaf eleni. Roedd yn boeth, dyma ddechrau penwythnos llawn o hwyl ym mhrif ddinas Awstria.

Ro'n' i gyda dau ffrind o'r brifysgol. Buon ni yn Hatfield Polytechnic gyda'n gilydd pedwar deg mlynedd yn ôl. Amser i sgwrsio am y gorffennol a'n bywyd ni nawr wrth fwynhau 'coffi a chacen'.

Dydd Gwener: Cwrddon ni â grŵp o ddeg o bobl i gael taith beicio am dair awr i weld y ddinas. Roedd ein tywysydd ni yn siarad Saesneg yn dda iawn fel llawer o bobl ifanc yn Vienna. Roedd e'n ddoniol a diddorol hefyd. Roedd e'n dweud wrthym ni am adeiladau a chymeriadau o Vienna (fel y cerddor Strauss a Sisi, tywysoges Hapsburg). Gwelon ni'r eglwys gadeiriol - Petersdom, y Tŷ Opera (a ailadeiladwyd ar ôl yr ail Ryfel Byd), Cofeb yr Holocaust yn ardal Iddewig y ddinas, ac y Prater - parc ger camlas y Danube (gydag olwyn fawr o'r ffilm The Third Man).

Dydd Sadwrn: Aethon ni ar y tram sy'n mynd o gwmpas y Ddinas ar y Ringstrasse. Roedd e'n bosib gweld mwy o adeiladau grand o'r deunawfed a'r pedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar ôl y tram, darganfyddom ni Café Dener yng nghanol y ddinas - lle perffaith i flasgu Sachertorte, y gacen enwog o Vienna. Mae Sachertorte yn gacen siocled gyda jam bricyll yn y canol a mwy o siocled ar y top. Blasus iawn gyda hufen a choffi.

Yn y prynhawn aethon ni ar daith o'r enw, 'Taith hanesyddol Hitler'. Welon ni ardaloedd sy'n gysylltiedig â Hitler yn Vienna (Awstrian roedd Hitler a threuliodd saith mlynedd yn Vienna o 1906 i 1913 pan oedd e'n ifanc ac yn dlawd). Hanes trist ond ddiddorol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Dydd Sul: Roedden ni'n hedfan nôl i Lundain ond roedd amser yn y bore i fynd i Balas Uwch Belvedere ble mae casgliad o luniau ardderchog, yn cynnwys y llun enwog gan Gustav Klimt, 'Y Cusan'. Roedd llawer i edmygu yna.



Mae digonedd o bethau eraill i wneud yn Vienna - fel y sioe ceffylau Lipizzanar a phalas arall, sef Palas Schonbrunn palas Baroque gyda 1441 o ystafelloedd a gerddi mawr. Mae'n amhosib gwneud popeth mewn un penwythnos.

Mwynhaom ni ein blasied o Vienna – yn enwedig y cocktails ar ddiwedd y dydd. Gobeithio byddan ni'n cwrdd eto cyn bo hir.



Mynd ar Wyliau

gan Bryan Roberts



Ychydig yn ôl, penderfynodd fy ngwraig a finnau ei fod o'n hen bryd i ni benderfynu beth i'w wneud am wyliau eleni. Felly, mi gasglais lyfrynau, o bob math ac o bob man, rhai o asiantau teithio, rhai o'r papurau newyddion, gwybodaeth gan rhai o gwmnïau ein bod ni wedi teithio efo nhw o'r blaen, ag ati.

Ar ôl dipyn, roedd gynnon ni ddigion o wybodaeth i ddechrau mynd trwy bopeth, roedd ein dau yn cytuno nad oedd amser i golli, ac roedd llawer o ddewis. Felly, ar ôl cinio un noson yr wythnos diwethaf, eisteddon ni yn y lolfâ er mwyn dechrau'r dasg.

I ddechrau cododd fy ngwraig lyfryn gan un o'r cwmnïau mwyaf enwog ac, ar ôl chwarter awr yn mynd trwyddo dywedodd "nid ydw i'n siŵr fy mod i eisiau hedfan. Dwi'n casáu codi mor gynnar yn y bore i deithio i'r maes awyr, gorfod aros yna am oriau cyn byrddio, efo dim byd i wneud ond yfed gormod o goffi. Dyna fo, 'dwi


ddim eisiau hedfan byth eto." "Reit" dywedais, a thaflais bob llyfryn ar gyfer wyliau hedfan yn bin ysbwriel.

Fy nhro fi oedd nesaf, i geisio dod o hyd rhywbeth y byddai hi'n licio, felly mi wnes i awgrymu a bysai mordaith yn apelio ati. "Bywyd moethus am bythefnos cyfan, cyfle i wisgo'r ffrogiau' nad wyt ti'n cael cyfle i'w wisgo fel arfer, adloniant bob nos, beth mwy gallet ti ofyn amdano" "Paid â bod yn wirion" atebodd. "Wyt ti'n meddwl fy mod i'n mynd unrhyw lle gallwn i ddim gweld y tir, heb sôn am gysgu yng nghanol unlle, rhaid iti feddwl eto." Aeth mwy o lyfrynau yn y bin.



Cododd hi lyfryn o wyliau dros Ewrop efo Ewrostar. "Beth wyt ti wedi meddwl am fynd ar y trê?" gofynnodd. Ar y wyneb roedd hyn yn bosibiliad ond yr oeddwn i'n gallu gweld problemau. "Nid ydw i'n siŵr" atebais. "Pensiynwr ydw i gofia, ac ni allwn i gludo dau gês drwm dros bontiai rhwng platfformau neu ar hyd platfformau hir chwaith. Dw i wedi gwneud hynny o'r blaen, ond yr oeddwn i'n llawer mwy ifanc ar y pryd. Roedd hi'n anodd ar y pryd a byddai ddim yn gwneud y fath beth eto, diolch." "Hy" atebodd hi.

Erbyn hyn, roedd y llwyth o lyfrynau yn diflannu'n gyflym. Welais i lyfryn efo lun o goets foethus yn teithio trwy fynyddoedd y Swistir ar ei glawr. Hyfryd. "Mae hynny'n edrych yn ddiddorol, Dwi'n siŵr y byset ti'n mwynhau rhywbeth fel hyn." awgrymais. Cododd ei



haelïau mewn syndod "Dwyt ti ddim yn cofio roedd fy chwaer yn gorfod bod wrth y safle bws am chwarter wedi tri yn y bore er mwyn ymuno â'r goets ac wedyn treulion nhw tri diwrnod ar y goets yn mynd ac yn dod yn ôl?." "O ia"

Erbyn hyn, nad oedd unrhyw lyfrynau ar y bwrdd coffi, roedd y bin papurau'n llawn dop, ac mi wnes i golli pob gobaith, roedden ni wedi

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

diystyru pob opsiwn; awyren, llong, trê, a bws, nid oedd dim byd arall ar gael.



Yn sydyn, mi ges i syniad. "Beth am ddim ond neidio yn y car a dilyn ein trwynau?" awgrymais. "Am syniad da" atebodd, a dyma be wnaethon ni. Oedd yn tsiampion, a dyna beth y bydden ni'n ei wneud yn y dyfodol hefyd. Nid oes angen teithio dramor er mwyn cael gwyliu da.

Gwyfynnod

gan Adrian Pugh

Yn aml dyn ni'n mynychu diwrnodau cofnodi bywyd gwyllt lle mae cofnodwr gwyfynod y sir wedi gosod trapiau gwyfynod y noson cynt. Rydyn ni'n gallu adwaen y gwyfynod y bore canlynol.



Gwyfyn Hebog Poplar

Roeddwn i'n meddwl y byddai'n hwyl cael trap gwyfynod i'w ddefnyddio gartref ond maen nhw'n ddrud iawn. Yn ddiweddar, gwelais rywun mewn grŵp Facebook sy'n gwneud trapiau gwyfynod rhad, felly penderfynais brynu un.



Gwyfyn Hebog Eliffant

Ar ôl y noson gyntaf, fe wnaethon ni ddal llawer o wyfynod gan gynnwys y Gwyfyn Hebog Eliffant (pinc) a'r Gwyfyn Hebog Poplar (llwyd). Dydw i ddim yn gwybod pam nad yw'r un llwyd yn cael ei alw'n Eliffant!

Efallai bod o wedi yfed gormod o pink gins Adrian! Wyt ti wedi tsiecio dy cabinet cocktail yn ddiweddar? - Rob

Gloënnod Byw a Gwyfynod

Mae'r Gloënnod a'r gwyfynod yn perthyn i rywogaeth lepidoptera a, chredwch neu beidio mae llawer, llawer mwy o wyfynod na gloënnod byw. Mae tua 2400 o lepidoptera yn byw ym Mhrydain ond dim ond 58 sydd yn loënnod - anhygoel ynte?

Beth am ddweud mwy am y gwyfynod rwy'ti wedi gweld hyd yn hyn Adrian?

Tsieina a Thibet

gan Leslie Punt

Trefnwyd y daith hon i Tsieina a Tibet fel rhan o anrheg pen-blwydd 21ain i Stephen, fy ngŵyr. Yr haf hwn oedd diwedd ail flwyddyn Stephen yn y prifysgol ac oedd digon o amser i'r daith cyn dechrau ei fywyd gweithio.

Ar ôl hediad o 11awr cyrhaeddwn ni Beijing lle cawson ein cyfarfod gan ein tywysydd teithio. Eglurodd hi fod pob plentyn yn Tsieina yn cael ei ddysgu yn Saesneg a bod rhaid i bob un ohonyn nhw ddewis enw Saesneg ar gyfer yr ysgol. Roedden ni i'w galw hi'n Mary.

Sgwâr Tiananmen

Dechreuon ni gydag ymweliad â Sgwâr Tiananmen, ble yn 1989 cafodd myfyrwyr eu saethu a'u rhedeg drosodd gan danc yn ystod protestiadau plaid democratiaeth yn erbyn y Llywodraeth Gomiwnyddol. Gawson dipyn o syndod i weld sgwâr mor fawr â mwy neu lai yn wag ble mae Tsieinaidd yn cynnal eu gorymdaith Diwrnod Mai.

Wrth fynedfa'r Ddinas Waharddedig mae balconi coch mawr le mae swyddogion Tsieinaidd yn sefyll yn ystod y gorymdeithiau hyn. O flaen yr adeilad hwn, mae llun o'r Cadeirydd Mao sy'n edrych yn ifanc; dywedir bod y llun yn cael ei ddisodli'n flynyddol fel bod Mao yn parhau i edrych yn ifanc. Mae mynedfa'r Palas Haf a'r Ddinas Waharddedig yn sefyll ar ben y Sgwâr ble'r aethom ni nesaf.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Plas yr Haf a'r Ddinas Waharddedig

Adeiladwyd Palas yr Haf a'r Ddinas Wahareddig (the Summer Palace and the Forbidden City) ym 1755. Darganfyddom nad un palas yn unig oedd hwn ond sawl un wedi ei wneud o bren yn fwyaf ac wedi eu haddurno'n lliwgar iawn mewn gwyrdd, coch, glas a gwyn. Roedd y deunyddiau hynny a oedd wedi eu lliwio'n felyn yn eiddo i'r Ymerawdwr yn unig ac yn dangos ei nerth.

Mur Mawr Tsiena

Dechreuwyd y mur gan yr ymerawdwr Tsieinaidd cyntaf Qui Shi Huang i gadw ymosodwyr fel y Mongoliaid allan. Roedd y briciau wedi'u gwneud o glai wedi'i danio a'i chysylltu â'i gilydd gan ddefnyddio calch a phast reis gludiog. Mae'r mur mor hir a 5,500 milltir gyda miloedd o dyrau gwyllo.

Wrth nesáu at un o'r tyrau gwyllo daethom ar draws dyn ifanc Tsieinaidd a'i gariad. Yn awyddus i roi cynnig ar ei Saesneg gofynnodd i ni, "O ble 'dych chi'n dod?" Atebodd Stephen, fy ŵyr, yn syth "Wales." Ymatebodd y dyn ifanc, "Gareth Bale!" Roedd e wedi bod yn gwyllo'r Cwpan Ewrop oedd y cael ei chynnal ar y pryd. O'r diwedd mae'r byd wedi clywed am y wlad o'r enw Wales.

Hutong

Mae Hutong yn air Mongolaidd sy'n golygu ffynnon ddŵr ac aethon ni am wibdaith o gwmpas yr ardal dlawd hon o Beijing, roedd hi'n tywallt y glaw ac yn nosi. Gwelsom resi o dai teras bach nad oedd ganddynt doiledau.

Yn eu lle roedd toiledau cymunedol ar ben bob stryd. Roeddwn i'n chwilfrydig am gyflwr y lle felly es i mewn. Roedd y drewdod yn llethol a welais dwy le a oedd y toiledau eu hunain. 'Doedd na ddim basn i eistedd arno, dim ond dau dwll yn y llawr, fel byddech chi'n gweld mewn gwledydd fel Ffrainc. Doedd dim drws, sgrin na llen yn gwahanu'r ddau dwll. Yn ôl pob golwg mae dynion, menywod a phlant yn defnyddio'r toiledau hyn, yn sefyll ochr yn ochr heb unrhyw gywilydd o gwbl.

Rhyfelwyr Terracota

Aethon ni o Beijing i ddinas Xi'an ar y 'bullet train', gan deithio ar gyflymder dros 300 milltir

yr awr i weld y Rhyfelwyr Terracota, sef casgliad o gerfluniau terracotta sy'n cynrychioli byddinoedd Quin Shi Huang, ymerawdwr cyntaf Tsieina.

Yn ôl y sôn, daeth ffermwr ar draws rhai darnau o'r rhyfelwyr tra oedd yn chwilio am ddŵr i'w anifeiliaid ym 1974. Datgelodd cloddiadau 8,000 o ryfelwyr, pob un a wyneb gwahanol. Yn eu plith roedd, cerbydau rhyfel, ceffylau, marchoglu, saethwyr a milwyr traed. Erbyn hyn roedd adeilad wedi e'i godi er mwyn eu diogelu rhag y tywydd.

Claddwyd hyn oll gyda'r ymerawdwr yn 209-210 ac mae'n cael eu hadfer yn raddol, er nad yw'n debygol y caiff bedd yr ymerawdwr ei agor am beth amser.

Roedd yn syndod i ddysgu, unwaith roedd anferthwch y darganfyddiad a'i fanteision masnachol fel atyniad i dwristiaid bod y blaid gomiwnyddol Tsieinaidd wedi ailgartrefu'r holl bentrefwyr yn hael mewn pentref a adeiladwyd ychydig filltiroedd i ffwrdd,

Tibet

Ar ôl hediad tair awr o Xi'an a chyrraedd Maes Awyr Rhyngwladol Lasa Gonga cawsom ein cyfarch gan ddyn Tibetaid ifanc a fyddai'n gweithredu fel ein tywysydd. Cawsom ein cyfarch wrth gael sgarffiau gwyn hirion o amgylch ein gyddfau fel symbol traddodiadol o heddwch a chroeso.

Teithiom i Lasa ar hyd traffordd newydd odidog, a gafwyd ei adeiladu gan y Teisennod a drwy dwnnel yr ystyriwyd ei fod yn amhosibl i'w greu. Dechreuodd rhesi o adeiladau uchel ddominyddu'r dirwedd wrth i ni gyrraedd Lasa gan wneud i'r adeiladau Tibetaid traddodiadol edrych yn ddibwys o'u cymharu; pob un yn arwydd o'r gormeswyr Tsieinaidd a oedd wedi goresgyn Tibet ym 1950.

Ers hynny mae pobl Tibet wedi methu dal pasbort a theithio dramor. Mae eu hiaith wedi'i gwahardd mewn dogfennau swyddogol ac achosion cyfreithiol ac mae'r plant yn yr ysgol yn cael eu gorfodi i ddysgu a siarad Mandarin yn unig mewn ymgais i ddileu'r iaith Dibeteg (yn swnio yn gyfarwydd?)

Wrth i ni fynd i mewn i'r ddinas roedd y pethau'n ymddangos yn fwy Tibetaid. Llawer o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

siopau bach gydag arwyddion yn Nhibeteg a Mandarin uwchben y drysau a phobl yn gweithio ar bob math of bethau, fel beiciau a cheir a gwerthu bwyd ffres ac wedi'i goginio.

Plas Potala

Codi'n gynnar y bore wedyn er mwyn gweld y Plas Potala, plas gaeaf y Dalai Lamas yn gynt a chanolfan llywodraeth ers y seithfed ganrif. Bellach yn amgueddfa, mae'n symbol o Fwdiaeth Dadbwythid. Wrth gerdded i mewn i Stryd Bakhor, hynafol ac enwog, aethon ni heibio sawl baner gweddi, olwynion gweddi, a thuserau i lenwi'r aer ag aroglarth a oedd bron yn mygu rhywun: Offrymau heddwch i'r Duwiau oedd y rhain.

Mae'r Plas yn 390 troedfedd o uchder gyda'r hanner uchaf o'r adeilad wedi ei beintio yn borffor a'r hanner isaf yn wyn. Y tu mewn, mae nifer anhygoel o gerfluniau o Fwdhas o bob maint, yn cynrychioli, pob agwedd o fywyd, er enghraifft, genedigaeth, marwolaeth, ffrwythlondeb ayyb. O flaen pob Bwdha oedd plât casglu, pob un yn orlawn ag arian ac wrth i'r torfeydd gerdded heibio hyd yn oed mwy o arian yn cael ei arllwys i mewn.

Ar ôl gadael y Plas aethon ni i ardal dlawd o Lasa ble daethom ar draws caffi bach blêr gyda meinciau sigledig. Roedd nifer o ddynion, tlawd eu golwg, gyda nifer o ddannedd ar goll, wedi ymgasglu o amgylch a meinciau hyn yn yfed te. Roedd ganddyn nhw ddiddordeb ynddon ni fel pobl o'r Gorllewin, a thrwy ein tywysydd cawson sgwrs fer. Roedd ganddyn nhw ddiddordeb ynddon ni fel pobl o'r Gorllewin, ac yn sgil ein tywysydd cawson sgwrs fer.

Ni oedd y Gorllewinwyr cyntaf erioed i siarad â'r grŵp a chynigiwyd te am ddim i ni. Cafwyd y te ei wneud a llaeth iac wedi'i weini mewn gwydrau a oedd yn edrych braidd yn amheus. Diolch i'r nefoedd roedd e'n rhad ac am ddim. Roedd e'n anodd iawn i'w yfed, ond roedd rhaid i ni fod yn gwrtais ac ymateb yn dda i'r hyn a oedd mor groesawgar.

Cymraeg yn Nhibet

Daeth y gwyliau i ben gyda syndod mawr. Aethon ni i siop prynu ychydig o gofroddion a thra roedden ni'n siarad yn Saesneg i'r dyn daeth hen wraig atom ni a dywedodd yn Saesneg,

mewn acen gogledd Cymru, "O ble 'dych chi'n dod?" Dywedais, "O Gwibrân yn Nhorfaen, cynt Sir Fynwy." Dywedodd un o Lanberis oedd hi ac ar hynny gofynnais oedd hi'n siarad Cymraeg. "Ydw" oedd yr ateb ac ar hynny dechreuom ni sgwrs yn Gymraeg. Diwedd perffaith i wyliau yn Tsieina a Tibet.

Bywyd dyddiol ar ddialysis

gan Simon Avery



Yn rhifyn diwethaf "Y Wennol", ysgrifennais i am fy mhrofiadau gydag afiechyd aren a thriniaeth "dialysis". Yn ôl yn 2024, pan o'n i ddim ond yn dri deg wyth oed, dechreuais i deimlo'n sâl. Aeth bethau o ddrwg i waeth a ffeindiais fy hunan yn yr ysbyty am fis. Dywedodd y meddygon wrtha i nad ydy fy arenau yn gweithio o gwbl a bydd rhaid i mi gael triniaeth dialysis i lanhau fy ngwaed. Yn anffodus, does dim iachâd, felly dw i angen parhau gyda dialysis er mwyn cadw yn fyw. Yn yr erthygl yma, baswn i'n hoffi disgrifio tipyn bach mwy am fy mhrofiad dyddiol gyda dialysis ar hyn o bryd. Do'n i ddim yn gwybod dim byd am ddialysis neu arenau cyn 2024, ond dw i'n credu ei fod e'n bwysig i helpu pobl eraill i ddeall am fywyd claf afiechyd yr aren.

Dylai fy arenau weithio i lanhau fy ngwaed - cael gwared â'r tocsinau ac yn y blaen - ond heb arenau, mae'r tocsinau yn gallu achosi salwch difrifol. Felly, dw i'n defnyddio peiriant dialysis i lanhau fy ngwaed yn lle fy arenau. Ro'n i'n harfer mynd i glinig arbennig er mwyn derbyn dialysis ond, nawr, mae peiriant gyda fi yn fy 'stafell wely a dw i'n gallu gwneud dialysis gartref dros nos.

Mae'r peiriant yn edrych tipyn bach fel printiwr mawr gyda thiwbiau a bagiau. Mae

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

sgrin fach a sawl botwm. Cyn o'n i'n gallu dechrau defnyddio'r peiriant roedd rhaid i mi gael llawdriniaeth i osod tiwb i mewn fy abdomen. Mae'r peiriant yn defnyddio'r tiwb i lanhau fy ngwaed. Pob nos - tua hanner awr wedi naw fel arfer - dw i'n cysylltu'r tiwb yn fy abdomen gyda'r peiriant. Wedyn, dros y naw awr nesaf, mae'r peiriant yn pwmpio hylif i mewn i fy abdomen. Mae'r hylif yn amsugno'r tocsinau o fy ngwaed, wedyn mae'r peiriant yn pwmpio'r hylif allan unwaith eto a dw i'n cael gwared â'r hylif gyda'r tocsinau. Yn raddol, trwy gydol y nos, mae'r hylif yn glanhau fy ngwaed.

Yn ystod y dydd dw fy i'n gallu byw fy mywyd arferol - mwy neu lai. Mae dipyn o waith meddygol i wneud weithiau ond dw i'n gallu mynd am dro, mynychu fy nosbarth Cymraeg ar lein, cwrdd â ffrindiau, gweithio ar brosiectau - ond dw i ddim yn gallu cymryd egwyl o fy nhriniaeth. Rhaid i mi ddychwelyd adre cyn naw o'r gloch boed law neu hindda. Felly, mae bywyd dyddiol ar ddialysis yn anodd weithiau, ond dw i mor ddiolchgar i gael cefnogaeth anhygoel.

Cwrs Preswyl Aberystwyth

Penwythnos gwyh

gan Anne Lloyd



Dechrau da, gyda'r haul yn tywynnu a'r golygfeydd gogoneddus o'r A487 ar gyrion Aberaeron. Ac wedyn, yr wynebaw cyfarwydd, y rhai dw i'n eu gweld nhw bob wythnos, a'r rhai dw i'n eu gweld yn flynyddol ar y cwrs preswyl. Rhai newydd hefyd, ond pawb â'r un amcan - ymdrochi yn yr iaith Gymraeg dros y penwythnos.

Bant â ni i swyddfeydd Geiriadur Prifysgol Cymru ble dysgon ni am hanes diddorol y GPC. Er dechreuodd y gwaith ym 1921, dim ond ym

1950 gyhoeddwyd y rhan fach gyntaf o'r geiriadur, ar ôl i'r ymchwilwyr dreulio amser maith yn casglu miloedd a miloedd o slipiau gyda geiriau gwahanol a'u tarddiadau. Roedd hi'n wych gweld yr hen slipiau mewn cannoedd o focsys. Ers hynny, mae'r cyfrolau i gyd wedi cael eu cyhoeddi, a lansiwyd y GPC ar lein yn 2014, dilynwyd gan App yn 2016. Yn ystod yr ymweliad soniodd un o'n tiwtoriaid am gwmni o'r enw 'Jengyd' a fyddai'n dod i'n diddanu bore Sul, a dwedodd un o'r ymchwilwyr yn syth bod y gair yn tarddu o 'dianc' (cliw bach yna). Maen nhw'n gwybod eu stwff yn y GPC, ac fel 'nerd' llwyr, ro'n i wrth fy modd! Ond rhai o'r geiriau yn y GPC - titsiar er enghraifft! Nefoedd annwyl! Pa mor anodd yw hi i ddefnyddio'r gair athro - gwanhau'r iaith neu beth!

Ar ôl taith gyflym drws nesaf i'r Llyfrgell Genedlaethol a'i thrysorau, aethon ni i'r llety myfyrwyr Fferm Penglais er mwyn ymgartrefu yn ein hystafelloedd cyfforddus. Mae myfyrwyr yn byw'n dda'r dyddiau 'ma!



Cerddon ni i lawr y bryn i gael pryd o fwyd yn y dre, ac ar ôl hynny, cerddodd y rhai dewr (neu dwp) yn ôl lan y bryn i'r llety. Mae'n mynd yn hirach ac yn fwy serth bob blwyddyn - dyna beth sy'n digwydd pan dych chi'n heneiddio. Roedd hyd yn oed fy Fitbit yn cwyno!



Ddydd Sadwrn aethon ni i Aberteifi, ble cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf ym 1176, wedi'i threfnu gan yr Arglwydd Rhys. Bydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 850 eleni, gerllaw yn Llantŵd. Cawson ni hanes y castell yn yr iaith Gymraeg gan dywysydd gwybodus. Does dim llawer o'r castell i'w gweld, ond ar ôl tirlfesur, mae'n debyg bod mwy o'r adfeilion o dan y lawnt yng nghanol y tir. Ger y muriau mae cadair

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Eisteddfod fawr wedi'i cherfio'n hardd, ac mae'r cerflun pren o'r Arglwydd Rhys yn gwarchod ei diriogaeth. Yn y tŷ, a adeiladwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, cawson ni gip ymlaen llaw o'r Gadair ar gyfer yr Eisteddfod eleni, ynghyd â nifer o arteffactau Eisteddfodau blaenorol. Trîr bach arall hefyd - gwelon ni, a dalion ni'r goron, o'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ym 1899, a brynwyd o Ebay gan un o'n cyn siaradwyr gwadd. Roedd y goron wedi'i hysbysebu fel 'tiara', ond gwyddai fe'n well! Difyr iawn.

Nesaf ymwelon ni â Stiwdio Recordio Fflach, a sefydlwyd yn yr wythdegau gan aelodau'r grŵp Cymraeg arloesol Ail Symudiad, ac erbyn hyn yn recordio a rhyddhau amrywiaeth o gerddoriaeth. Mae'r stiwdio yn edrych fel garej tu ôl tŷ, ond tu fewn mae e'n bendant yn edrych fel stiwdio recordio, er taw dim ond ar y teledu dw i erioed wedi gweld un. Dysgon ni llawer am hanes y stiwdio.



Cofiwch!

Ar y ffordd yn ôl i Aberystwyth stopion ni yn yr encilfa er mwyn tynnu'r llun gorfodol wrth y mur enwog 'cofiwch Dryweryn' a dysgu tipyn bach o'i hanes.

Nes ymlaen, yn ôl i lawr y bryn i gael bryd o fwyd a chwis clou, i gadw ein hymenyddiau'n gweithio yn barod i'r her y bore canlynol.

A'r diwrnod olaf - ystafell ddianc mewn bocs! Daeth menyw o'r cwmni Jengyd, yr ystafell ddianc symudol Gymraeg gyntaf, (tipyn o lond ceg oedd hynny!) gyda gêm am y syrca ac eliffant ymadawedig truan, pwnc hyfryd ar fore Sul braf! Dihangodd fy ngrŵp i ddwywaith hefyd - ddaethon ni ddim yn olaf, felly doedd dim rhaid i ni wisgo gwisg clowniaid. Fyddai wig glown aml-liw ddim wedi fy siwtio i o gwbl! Ond rhaid dweud, roedd yn well na'r gemau gramadeg arferol!

Ac wedyn, amser i ddweud 'hwyl fawr' ac yn edrych ymlaen at yr un nesaf!

Argyfwng yn y Mynyddoedd

gan Mike Brown



Rhan 13

Yna cofleidiodd y ddau ddyn gyda llawer o gellwair a gwenu. Ar ôl gwneud ffws o'r ci, dechreuodd Steve esbonio beth oedd wedi digwydd iddo fe. Ond pan ddywedodd ei fod newydd ddarganfod taw ei gwmpawd oedd ar fai, oherwydd ei fod yn pwyntio i'r cyfeiriad anghywir, wnaeth Ali dorri ar ei draws. 'Wyt ti wedi bod yn cadw dy ffôn symudol a chwmpawd yn yr un boced?' Gofynnodd e.

'Wel weithiau efallai, dyw i ddim wedi ceisio eu cadw nhw ar wahân yn enwedig' dywedodd Steve.

'O diar, mae hyn yn esbonio popeth' meddai Ali. 'Ond yn gyntaf, gad i fi wobrwyo fy nghi lanto yma, wedyn galw'r tîm achub ar y radio i roi gwybod iddyn nhw dy fod ti'n saff. Wedyn gallwn ni ddechrau ein taith yn ôl a siarad am beth sydd wedi digwydd ers galwad dy wraig.

Esboniodd Ali iddyn nhw gael yr alwad gan ei wraig am saith o'r gloch. Yn ffodus roedden nhw eisoes yn yr ardal yn hyfforddi. Fel hyn, roedd yn bosibl cwrdd â gwraig Steve erbyn wyth a pharatoi'r cynllun achub. Roedd y llwybr yn cael ei archwilio o ddau gyfeiriad. Trwy ddefnyddio cynllun taith gerdded Steve fel sail, roedd un grŵp yn cerdded o'i ddiwedd i'r brig a grŵp arall yn cerdded o'i ddechrau i'r brig. Roedd Ali gyda'r grŵp oedd wedi cychwyn o'r dechrau. Aethon nhw ymlaen yn gyflym oherwydd bod y ci ar y llwybr arogl.

Rhan 14

Ar y ffordd yn ôl lan, esboniodd Ali i Steve fod un achubwr gyda'i wraig ac y byddai wedi clywed y neges yn dweud ei fod yn ddiogel. Byddai'n

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

mynd â hi i'r man cyfarfod a drefnwyd ymlaen llaw. Roedden nhw nawr yn mynd i gwrdd â'r grŵp achub arall ar y brig, ac yna gyda'i gilydd bydden nhw i gyd yn mynd i'r un man cyfarfod. Oddi yno, taith fer fyddai hi yn y 'Land Rover' yn ôl i'r ffordd a char ei wraig. Felly roedd popeth dan reolaeth.

Yna, esboniodd Ali ei fod wedi bod yn rhan o ddwy achubiaeth yn ddiweddar, ac wedi clywed am sawl un arall, â'r un broblem. Ar ôl hynny, roedd yn chwilfrydig ynghylch beth allai fod yn achosi methiannau offer fel hyn? Nid oedd unrhyw beth y gallai ddod o hyd iddo ar-lein. Felly, roedd wedi ystyried yr offer arall y mae dringwr yn mynd ag ef. Roedd llawer o bethau metel yn ei sach fel arfer ond, ar ôl profi gwahanol bethau, ni allai ail-greu'r un broblem. Yna, meddyliodd, beth am ffôn symudol oherwydd mae magnet ynddo. A dyna oedd hi. Darganfu ei bod hi'n bosibl newid y polyn magnetig. Yna, gofynnodd Ali y cwestiwn amlwg,

'Felly Steve, wyt ti wedi bod yn cadw dy ffôn a dy gwmpawd yn yr un boced?

Cafodd Steve sioc fawr o glywed hyn. Yr unig beth y gallai feddwl amdano oedd nad oedd wedi bod yn ceisio eu cadw ar wahân.

'Efallai, wel, mae'n debygol. Ond byth eto. A hefyd, dylwn i wir gadw cwmpawd sbâr yn fy mag, bydd rhaid i fi fod yn fwy gofalus yn y dyfodol, meddai.

Adfyd a ddaw â dysg yn ei law!

Byd Natur – mis Hydref 2026

gan Patrick Soper



Hyd y gwyddon ni mae pwmpenni wedi cael eu tyfu am fwyd dros fwy na 7,500 o flynyddoedd. Yn hanu o'r ardal rydyn ni nawr yn

ei alw yn Fecsico, dyma aelod teulu mawr ac amrywiol - gallai pwmpen gael ei choginio a'i bwyta yn ffres gan y bobl frodorol, neu wedi'u sychu mewn darnau hirgul fel bwyd maethlon y gaeaf.

Yn ystod ganol 1500au pan roedd yr Ewropeaid yn archwilio cyfandir America gogleddol, roedd hadau pwmpen ymhlith yr amrywiaeth dirfawr o bethau a ddaethon â nhw yn ôl. Wedi'u mabwysiadu yn gyntaf yn Ffrainc, cyrhaeddodd yr hadau cyn pen dim ym Mhrydain; eginon nhw a thyfu yn iawn, a daeth pwmpenni yn ffasiynol yng ngerddi plastai Tuduraidd. Yng ngheginau'r boneddigion roedden nhw'n boblogaidd naill fel rhan o brif saig neu ynteu fel melysfwyd, wedi'i gyfuno ag afalau efallai mewn tarten neu rywbeth tebyg.

Roedd plant yn arfer cerfio wyneb ar rwden ar ddiwedd mis Hydref fel rhan o'r dathliad dechrau Blwyddyn Newydd yn y calendr Celtaidd. Ond bellach mae rwdins wedi cael eu disodli gan bwmpenni am eu bod yn haws o lawer i'w cerfio!

*

Gyda'u gyddfau hir, plu tywyll a'u hystum talsyth, mae yna rywbeth cynhanesol, bron, ynglŷn â golwg mulfran, neu efallai fel cipolwg o ffilm arswyd Mae eu poblogaeth nhw yn cynyddu a gellir eu gweld ar hyd ein harfordir, glannau afonydd ac wrth ymyl llynnoedd.



Mulfran - adenydd ar led

Mor gampus am blymio a nofio yw'r adar dyfrol hyn ac yn dal pysgod gyda'u pigau hir. Pan rydym ni'n eu gweld yn padlo dros lyn, ayb, maen nhw'n ymddangos eithaf isel yn y dŵr; mae hyn oherwydd nad yw eu plu yn ddwrglos. O ganlyniad mae ganddyn nhw ddiffyg o nofiadolrwydd, ond mae hyn yn eu galluogi plymio a nofio mor hawdd o dan dŵr, yn hela pysgod i'w bwyta, yn enwedig rhufellod, llysywod a lledod. A dyna nhw yn sefyll ar y glan gyda'u breichiau ar led, yn sychu eu hadenydd yn yr awel a'r heulwen. Os bo cyfle, bydd yr oedolyn yn bwyta 400g - 700g o bysgod bob dydd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Ar y cipolwg cyntaf mae mulfrain werdd yn debyg dros ben i'r mulfran, ond mae'r fulfran werdd yn llai - gall mulfran bwyso cymaint â 2½kg. Yn ychwanegol, mae gan plu'r fulfran wyrdd disgleirdeb gwyrdd tywyll. Maen nhw'n hoffi byw mewn grwpiau yn hytrach nag aros ar eu pennau eu hunain, ac yn byth bron yn gadael yr arfordir.



Y Mulfran Werdd

Yn ôl bob sôn mae gynnon ni ryw 9,000 pâr epilol sydd yn byw ym Mhrydain yn barhaol, a 30,000 neu fwy yn cysgodi yma dros bob gaeaf.

Ydychi'n Cofio ..mis Hydref 1987?

gan Patrick Soper

Rydyn ni'n clywed llawer y dyddiau yma am 'gynhesu byd-eang' a 'newid hinsawdd'. Mae llawer o arbenigwyr yn mynnu bod gweithgareddau dynol yn achosi niwed parhaol i'n byd; maen nhw'n rhybuddio y bydd yna lawer mwy o gyfnodau sydd yn eithriadol o boeth yn ogystal â drycinoedd ffyrnig a dinistriol.

Bron â phedwar degawd yn ôl, yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref 1987, roedd daroganwyr y DU yn rhybuddio o dywydd garw erbyn canol y mis. Ond nid oedden ni'n beco llawer - dyma oedd yr hydref wedi'r cyfan, ac roedd tywydd garw ond i'w ddisgwyl.

Roedd y gwyntoedd dros y DU wedi bod yn ysgafn, a chredwyd y byddai'r gwynt a'r glaw disgwylidig ddim ond yn effeithio'r Sianel a'r ardaloedd ar hyd arfordir de Lloegr. Ac ar ôl hynny y bydden nhw'n ysgubo i'r gogledd rhwng Prydain a chyfandir Ewrop. Yn ychwanegol, roedd y rhagolygon wedi pwysleisio glaw yn hytrach na gwynt.

Yn gynnar ar fore 15fed y cawsom rybuddion cyntaf am wyntoedd cryfion i ardaloedd y Sianel; erbyn canol y bore roedd y rhybuddion wedi newid i sôn am 'wyntoedd enbyd'. Ychydig cyn hanner nos roedd sôn am law trwm mewn mannau mewndirol, ond nad oedd disgwyl gwyntoedd yn ddigon cryf i achosi difrod.

Ryw awr ar ôl hanner nos ar y 16eg dyna Swyddfa'r Tywydd yn cysylltu'r Weinyddiaeth Amddiffyn gan roi rhybudd tywydd mor wael y gallai fod angen cymorth y fyddin mewn rhai ardaloedd yn ne Lloegr.

Yma yng Nghymru roedd ychydig o ddifrod i adeiladau, a chollon ni nifer o goed, ond yn ne a dwyrain Lloegr daeth y rhan gwaethaf y ddrycin. Yn Shoreham-on-Sea yn West Sussex cofnododd y teclyn i fesur cyflymder y gwynt gymaint â 120 m.y.a. cyn peidiodd â gweithio am fod y ceblau trydan yr ardal wedi cael eu chwythu i lawr.

Wir, collodd sawl can mil o bobl eu cyflenwad trydan, ac roedd rhaid i'r rheiny yn ardaloedd eithaf anghysbell aros cyn belled â phytnefnos i gael eu hailgysylltu.

Yn dradegus, achosai'r tywydd mawr i ddeunaw o bobl ym Mhrydain colli eu bywydau, yn ogystal â thri yn Ffrainc. Cafodd rhyw bymtheg miliwn o'n coed eu dadwreiddio, a chyrhaeddodd ceisiadau yswiriant at £2 biliwn.

Dywedwyd ar y pryd mai dyma oedd y ddrycin waethaf i daro Prydain ers 1703, ac roedden ni yma yng Nghymru yn lwcus dros ben ein bod ni wedi osgoi'r rhan waethaf ohoni.

Gyrru a fi

gan Sara Jones



Diolch byth, nad ydw i'n gyrru mwyach. Mi allai rhoi'r cyfrifoldeb i fy nheulu. Mi yrrais i am bron 50 mlynedd ond byth yn mwynhau'r profiad. Gyrrais i ddim ond pan oedd rhaid i mi.

Dechreuais i yrru yn y saithdegau pan o'n i'n gweithio yn yr ysbyty. Roedd yn hanfodol bryd hynny. Llwyddais i gynilo £500 a phrynais hen Austin 1100 a dechreuais i ddysgu gyrru. Ar ôl tua 30 o wersi llwyddais yn fy mhrawf. Ces i syndod wrth basio achos doeddwn i ddim yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gallu parcio yn iawn ar ddiwedd y prawf. Dywedodd yr arholwr byddaf yn gwella nes ymlaen. Ond nes i erioed dysgu parcio yn iawn trwy gydol yr oes oni bai bod llawer o le ar gael.

Roedd y gallu i yrru wedi newid fy mywyd cyn pen dim. Nes i gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau. Ar ôl priodi beth bynnag, doedd gen i ddim ysu nag angen i yrru achos gyrodd fy nghwr Frank bob tro. Sut bynnag ar ôl geni fy mhlant roedd rhaid i mi yrru nhw i bob man.

Dychwelais i'r gwaith am sbel. Cefais ddamwain dair gwaith. Ond nid fi oedd ar fai o gwbl. Ces i fy nharo o'r cefn bob tro.

Ar ôl i'r plant tyfu fyny a finnau'n newid swydd ces i dair damwain unwaith eto. Ond nid arnaf i oedd y bai o gwbl. Unwaith roliodd cerrig mawr i lawr o ochr y gamlas ac i'r ffordd a ches i fy nharo o dan fy nghar. Torrodd y swmp ac roedd mwg yn codi o dan y bonet.

Tro arall ces i fy nharo o'r cefn gan fan nwy, ond yr un gwaethaf oedd cael fy nharo "head on" mewn ffordd allan yn y wlad. Ro'n i'n teithio yn araf gan fod y ffordd yn gul ond wnaeth yrrwr dod tuag ataf yn gyflym fel peth gwyllt.

Ar ôl hynny, ddim ond un ddamwain ond y tro yma, fi oedd ar fai. Wrth bacio fan allan o ddreif cul a'i grafu ar y wal. Roedd hyn yn ystod diwrnod gwaith ac nid oedd perchennog y fan yn hapus. Ond doedd ddim rhaid i mi dalu, diolch byth.

Rwy'n falch bod fy nyddiau gyrru tu ôl i mi rŵan.

Reading as an Exercise

Recall the words you have learned by reading a book. Choose a book for early teenagers, one with not too many pages. As you read you will come across words that you know, you will be revising those words.

If the book is at the right level there will be many sentences you understand and sometimes the context will give you an idea of the meaning of new words. Read your book in conjunction with your classes and gradually you will be more comfortable with issues of grammar.

Let me know how you get on!

Cerddoriaeth Cymraeg

Yr Eisteddfod

gan Anthony Morgan



Dw i'n hoff iawn o ddod o hyd i albymau newydd a gwranddo arnyn nhw ond, nawr ac yn y man, dw i'n cael y cyfle i weld bandiau'n perfformio yn fyw. Eleni, es i i'r Eisteddfod a bydda i'n trafod tri pherfformiad bythgofiadwy, gan artistiaid amrywiol iawn.

Taswn i wedi gorfod dewis dim ond un set i wyllo, bysai wedi bod un Eädyth. Mae hi'n gantores blŵs ac R&B rhyfeddol gyda llais pwerus sy wedi gweithio gydag artistiaid fel Mr Phormula a Shamoniks. Canodd hi ym mhabell Mas ar y Maes gyda chantores anadnabyddus i fi, sef Asha Jane. Canon nhw fel deuawd rhan fwyaf y set, eu lleisiau yn cyfuno gyda'i gilydd yn berffaith i greu sŵn anhygoel sy'n haeddu llwyfan mwy. Alla i wrando ar Eädyth trwy'r dydd ond ges i fy llorio pan ganodd Asha Jane unawd. Canodd Asha, sy dal yn dysgu Cymraeg, fersiynau ei hun o ganeuon Shirley Bassey, sef Bys Aur (Goldfinger) a Gwariwr Mawr (Big Spender). Dyw hynny ddim yn her fach o gwbl ond roedd Asha Jane yn gyfartal â'r dasg a thynnodd hi gymeradwyaeth fawr o'r gynulleidfa. Un i gadw llygaid arni ydy Asha Jane.

Ym mhabell Encore roedd Ani Glas yn perfformio caneuon o'i albwm diweddaraf, Phantasmagoria. Mae ei cherddoriaeth hi'n cymysgu cerddoriaeth electronig gyda gitâr bas a'i llais breuddwydiol i greu rhywbeth unigryw. Gwnaeth Ani ysgrifennu, cynhyrchu, recordio a chanu'r holl albwm ei hunan ac yn perfformio popeth yn fyw ar ei phen ei hun gyda gwên ar ei hwyneb trwy'r amser. Roedd gwên ar wynebau'r dorf hefyd, oedd yn cael eu swyno gan gerddoriaeth a llais arallfydol Ani. Fel arfer, mae Ani yn canu yn Gymraeg, Saesneg a Chernyweg ac yn gynnwys iaith arwyddion yn ei fideos a'i

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

pherfformiadau byw. Erbyn hyn mae'r iaith arwyddion sy'n cyfeilio i'r gân Acwariwm wedi dod i ryw fath o ddawns bron mor enwog na'r gân ei hun. Roedd y dorf wrth eu boddau gan ymuno ag Ani yn ystod y gân. Mae'n ddeg i ddweud bod nhw wedi cael amser da.

Mae'n ddeg i ddweud, hefyd, gwnaeth pawb mwynhau'r sioe ar Faes D gan Taff Rapids. Ro'n i'n synnu i'w mwynhau a dweud y gwir achos dw i ddim yn hoff iawn o blŵgras fel arfer ond roedd perfformiad Taff Rapids yn hynod o hwyl. Mae'n amlwg bod nhw'n mwynhau perfformio ac mae eu brwdfrydedd yn heintus, yn enwedig pan maen nhw'n canu eu caneuon cyflymach, fel Honco Monco neu'u fersiwn bywiog o Sosban Fach. Dangoson nhw eu hamlochredd hefyd gyda'u cân newydd, Unwaith To sy'n faled am fod oddi cartref a'ch anwyliad, a'u fersiwn o gân draddodiadol Cymraeg, Dacw Nghariad. Roedd y dorf wrth eu boddau gyda'r perfformiad, oedd berffaith ar gyfer dydd Sadwrn heulog yn Sir Benfro.

Mae gwastad yn werth chrwydro rhwng y llwyfannau bychain a chlywed yr amrywiaeth o artistiaid talentog tu hwnt i'r brif lwyfan. Efallai bydd eich hoff fand newydd yn aros amdanoch chi.

Taith i Ddenmarc 2026

Mikeal ac Yvonne Conq



31 Mai: Ymadael â Plouguin i gyfeiriad Brest (30 km ar feic)

2 Mehefin: Ymadael o orsaf Flensburg (6 km ar feic)

I ni, mis Ionawr yw'r amser i ddechrau cynllunio'r teithiau beicio rydym wedi bod yn eu gwneud bob mis Mehefin ers tua degawd.

Dewiswyd Denmarc fel ein cyrchfan ar gyfer 2026 oherwydd bod cyd-deithiwr beicio wedi dweud wrthym ei bod wedi llwyddo i gyrraedd yno'r llynedd drwy fynd ar drên trwy Nantes a Strasbourg, ac yna bws i gyrraedd Flensburg yng ngogledd yr Almaen, ger y ffin â Denmarc ac i wneud hynny drwy archebu lle ar gyfer beic cyfan (heb ei ddadosod) ar y trên ac ar y bws.

Ni allem anghofio, yn ôl yn 2025, i yrrwr FlixBus wrthod gadael i ni fynd ar y bws gyda'n bagiau arbennig yn cynnwys beic wedi'i ddadosod. Roeddem yn bryderus, ond eto prynwyd ein tocynnau gyda lle ar gyfer beic cyfan mor gynnar â diwedd mis Ionawr! Ysgogwyd ni gan y prosiect hwn oherwydd bod Denmarc yn enwog am feicio ac mae'r dirwedd yn eithaf gwastad... Er nad oes gan y wlad gynifer o westeiwyr Warmshowers â Ffrainc, roeddem yn hapus i aros mewn "cysodfannau" y cabanau pren hynny sydd mor enwog yn Nenmarc.

Roeddem wedi cynllunio 22 o gymalau beicio (yn cynnwys 13 noson gyda gwesteiwyr Warmshowers a 9 noson mewn llochesau), ynghyd â dau ddiwrnod o deithio ar drên a bws ar gyfer y daith allan a dau arall ar gyfer y daith yn ôl. Daethom ar draws anhawster eto eleni! Fore'r 1af o Fehefin, sylweddolom nad oedd y trên rhanbarthol o Brest i Nantes wedi'i restru ar yr amserlen... Nid oeddem wedi cael gwybod bod y lein yn dal i fod allan o wasanaeth oherwydd tirlithriad ger Quimper yn ystod y gaeaf!



Beiciau yn y Trên

Ein hymateb i'r her oedd drwy archebu dau dacsî ar frys gyda'r gost yn cael ei thalu gan SNCF ac un beic ym mhob tacsî. Aethom ar frys i Quimper a llwyddo i fynd ar y trên... Yn anffodus, gadawom un o'n bagiau beic ar ôl mewn tacsî! Byddem yn ei nôl ar ôl dychwelyd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Yna, rhwng Nantes ac Angers, wnaeth y TGV oedi am amser hir. Yn y diwedd, cyrhaeddodd Strasbourg tua 9:00yh ac roeddem bron â cholli ein cysylltiad â'r bws nos oedd yn gadael am 9:45 yh i Frankfurt, Hamburg a Flensburg. Roedden ni'n ffodus dros ben!




Croeso cynnes yn Flensburg

Er ein bod ni wedi blino, cawsom groeso cynnes ar noson yr 2il o Fehefin gan Franziska a Klaus - ein gwesteiwyr Warmshowers cyntaf. Roedd y cwpl Almaeneg caredig yma yn ein trin fel hen ffrindiau. Cawsom sgwrs am eu profiadau o deithio ar feic yn eu hoedran (80 oed), am Ddenmarc, a mwy... cyn syrthio i gysgu'n ddwfn ac yn hyfryd! Da yw diwedd da! Rydym yn falch o rannu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein hantur gyda'n plant! Mae teithio ar feic yn aml yn her gorfforol a phersonol... ond yn her rydym wedi arfer â'i goresgyn - Cyhyd â bod gennym ein hiechyd!


3 Mehefin: 49 km – De Jutland (Løjt Kirkeby)

Rydym yn gadael porthladd a ffordd Flensburg ar feiciau, ac yno mae Denmarc! Roedd Franziska a Klaus, Protestaniaid Lutheraidd-wedi awgrymu ein bod yn ceisio dilyn yr Hærvejen (a elwir hefyd yn Ffordd Sant Iago neu Ffordd y Pererinion), un o lwybrau hynaf Ewrop, sy'n ymestyn dros 500 km ar draws Jutland. Jutland (Gwlad y Jutes) yw'r rhan o dir mawr Denmarc, sydd wedi'i lleoli i'r gogledd o'r Almaen. Ar y ffordd i Aabenraa (a ynganir fel *Ambra*), rydym yn helpu seiclwr i drwsio teiar fflat. Rydym yn dysgu bod y rhanbarth hwn, Schleswig-Holstein yn gartref i grŵp lleiafrifol sydd wedi cael ei lunio gan ddylanwad yr Almaen a goresgyniad y Natsïaid.



Helpu trwsio pynciwr

Mae'r llwybrau beicio yn ddiogel ac mae'r tir yn weddol wastad, er bod yna rai codiadau a gostyngiadau ysgafn fel y cadarnhaodd pob diwrnod dilynol. Mae'r diwrnod yn wyrdd a ffrwythlon, a gwenith yn ymddangos fel y prif gnwd; gwelwn adeiladau ar gyfer da byw a dod ar draws stondinau wrth ochr y ffordd sy'n cynnig ffrwythau a llysiau - mefus, tatws, ac ati i bobl



Llysiau ar werth wrth ochr y ffordd, (tatws, mefus ayyb)



Cysgod i gysgu

sy'n mynd heibio. Mae'r system yn seiliedig ar y m d d i r i e d gwirioneddol: ni welir y gwerthwyr yn unman! Mae

strydoedd canol tref Aabenraa yn lliwgar, ac rydym yn sgwrsio â thad a'i ferch sy'n beicio; maent wrth eu bodd eu bod wedi treulio sawl noson mewn lloches ar hyd y llwybr. Mae eu hanes yn ein hannog, gan ein bod ni'n profi ein noson gyntaf mewn lloches ar fferm yn Løjt Kirkeby dim ond 2 km o'r môr y noson honno. Mae'n debyg i fath o garafán, er bod y noson yn troi allan i fod yn eithaf oer.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Medi 2026 - Allan James yn siarad am 'Iolo Morgannwg a Gwerin Morgannwg'

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Edward Williams (Iolo Morgannwg) 1747-1826. Saer maen fel ei dad oedd Iolo, ond hefyd roedd e'n ysgolhaig, bardd a chasglwr llawysgrifau. Teimlai Iolo fod e'n bwysig dilyn traddodiadau gwerin ei ardal ym Morgannwg a chafodd effaith barhaol ar ddiwylliant

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Morgannwg a Chymru yn rhannol drwy sefydlu'r Orsedd, a ddaeth yn gysylltiedig â'r Eisteddfod.

Diolch yn fawr iawn i Allan am ei sgwrs ddiddorol. Roedd y sgwrs yn llwyddiannus iawn gyda 31 o bobl yn Y Tair Pedol, Cefn Cribwr neu ar Zoom.

Wrth gwrs mae llawer o bobl yn gwybod tipyn bach neu mwy am Iolo, ac roedd yn hyfryd i gael sgwrs amdano fe yn enwedig gan mai eleni ydy daucanmlwyddiant ei farwolaeth a chysylltiad Iolo â'n hardal ni.

Siaradodd Allan am y dylanwadau ar Iolo yn ystod ei fywyd cynnar. Cafodd Iolo ei eni ger Llancarfan ym Mro Morgannwg. Saer maen oedd ei dad ac o dras uchel oedd ei fam. Roedd cefndir ei fam yn golygu ei bod hi'n gallu darllen, ysgrifennu a siarad Saesneg. Ar adeg pan oedd cyfleoedd addysg yn brin i ddosbarthiadau penodol, dysgodd hi Iolo i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg yn ogystal â'i iaith frodorol, y Gymraeg.

Cafodd ei fam ddylanwad mawr arno fe a ddysgodd Iolo lawer wrth ei waith i ysgolheigion lleol fel Thomas Richards a luniodd eiriadur Cymraeg-Saesneg a John Walters a luniodd eiriadur Saesneg-Cymraeg. Roedd John Walters yn awyddus i bwysleisio wrth y bonedd Cymreig dylen nhw barchu'r iaith Gymraeg.

Mae'n ymddangos na allai Iolo wrthsefyll y demtasiwn i newid rhywbeth neu ddyfeisio rhywbeth yn ei waith ysgrifenedig. Yn ôl Iolo roedd y syniad o'r Orsedd yn seiliedig ar urdd dderwyddol hynafol honedig ond nad oes tystiolaeth ohoni. Fodd bynnag, mae'r Orsedd wedi datblygu'n sefydliad pwysig sy'n coleddu'r iaith Gymraeg ac mae ei haelodau'n bobl sy wedi cyfrannu at yr iaith a diwylliant Cymru.

Roedd Iolo ganrif o flaen ei gyfnod wrth gwyno bod Cymru'n genedl heb Amgueddfa Genedlaethol na Llyfrgell Genedlaethol. Doedd dim prifysgol yng Nghymru nes i Aberystwyth agor ym 1872.

Creodd Iolo gasgliad enfawr o lawysgrifau trwy ymweld â phlastai ledled Cymru. Byddai llawer o lawysgrifau wedi mynd ar goll hebdo, ac am flynyddoedd ni heriodd neb dilysrwydd y llawysgrifau. Tuag at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr academydd, Syr John

Morris-Jones, oedd y cyntaf i godi amheuaeth ar waith Iolo ac i'w labelu'n ffugiwr. Yn ddiweddarach penderfynodd academydd arall, Griffith John Williams, wneud mwy o waith i ganfod faint o'r gwaith oedd yn ganlyniad dychymyg yn hytrach na ffaith. Roedd e'n amddiffynnydd ac yn feirniad Iolo.

Mae ymchwil i waith Iolo yn parhau, ond yn y pen draw gellir ei gofio'n gadarnhaol am sefydlu'r Orsedd, a gysylltwyd ag Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin ym 1819. Mae hon yn parhau fel rhan bwysig o ddiwylliant Cymru, er gwaethaf y feirniadaeth o lawer o'i waith.

Digwyddiad nesaf - Nos Lun, 12 Hydref – David Callander yn siarad am 'Pwy oedd Myrddin go iawn'. Os bydd diddordeb gyda chi, rhowch wybod i mi, nestahumphreys@btinternet.com

Mae tudalen Facebook gyda'r Gymdeithas a dyma'r ddolen.

https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en_GB

Geirfa

Mike Rees

Brocer morgeisi - mortgage broker
Penglinau - knees

Noddfa, Noddfa

Noddfa - refuge
Troseddwr - criminal
Oesoedd Canol - Middle Ages
Cyhuddo - to accuse
Trosedd - crime
Euog - guilty
Gwarchod - to guard
Diryw - a fine
Gris - step
Swllt - shilling
Plwyf - parish

Oh Vienna!

Cymeriadau - characters
Ardal Iddewig - Jewish Quarter
Bricyllen - apricot
Cysylltiedig â - connected to

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Mynd ar wyliau

Llyfrynau - booklets
Asiantau teithiau - travel agents
Byrddio - to board
Canol unlle - middle of nowhere
Coets foethus - luxury coach
Llawn dop - full to the brim

Gwyfynnod

Cofnodwr - recorder
Gwyfynod - moths
Adwaen - identify
Rhad - cheap
Rhywogaeth - species
Anhygoel - incredible

Tsieina a Thibet

Hediad - flight
Gorymdaith - procession
Disodli - to replace
Darganfod - to discover
Deunydd - things, articles
Yn eiddo i'r ... - to belong to ...
Ymerawdwr - emperor
Tanio - to fire
Calch - lime
Gludiog - sticky
Tyrau gwylio - watch towers
Gwibdaith - a trip
Chwilfrydig - curious
Llethol - overpowering
Llen - curtain
Rhyfelwyr Terracotta - Terracotta army
Marchoglu - mounted warriors
Adfer - restore
Atyniad - attraction
Ailgartrefu - to rehouse
Yn hael - generously
Dominyddu - to dominate
Tirwedd - landscape
Dibwys - unimportant
Gormeswyr - oppressors
Goresgyn - to conquer
Gwahardd - to forbid
Dileu - to erase
Bwdiaeth - Bhudism
Thuser - incense shaker
Arogldarth - incense
Porffor - purple
Cerflun - statue
Arllwys - to pour

Meinciau sigledig - shaky benches
Llaeth iac - yak milk
Gweini - to serve
Gofroddion - souvenirs

Bywyd Dyddiol ar Ddialysis

Arennau - kidneys
Iachâd - cure
Claf - patient
Llawdriniaeth - surgery
Amsugno - to suck
Egwyl - a break, rest
Boed law neu hindda - no matter what

Cwrs Preswyl Aberystwyth

Amcan - objective
Ymdrochi - to immerse
Ymchwiliwr - researcher
Gwanhau - to weaken
Trysorau - treasures
Gwarchod - to guard
Tiriogaeth - territory
Cip - a quick look
Siaradwr gwadd - guest speaker
Arloesol - pioneering
Amrywiaeth - a variety
Encilfa - lay-by
Clou - quick
Ymenydd - brain
Ymadawedig - deceased

Argyfwng

Cofleidio - to hug, embrace
Cellwair - frivolity
Cwmpawd - compass
Yn enwedig - especially
Gwobrwy - to reward
Hyfforddi - to train
Archwilio - search
Sail - base
Lwybr arogl - scent trail
Chwilfrydig - curious
Methiant - failure

Byd Natur

Amrywiol - various
Hirgul - long
Archwilio - to explore
Mabwysiadu - to adopt
Egin - bud
Boneddigion - gentlemen (and ladies)

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Saig - meal

Melysfwyd - dessert

Cyfuno - to combine

Disodli - to replace

Cynhanesyddol - prehistoric

Mulfran - cormorant

Nofiadolrwydd - buoyancy

Rhufellod - roach

Llysywod - eels

Lledod - flatfish

Epiliol - breeding

Ydych chi'n cofio?

Gweithgareddau - activities

Niwed - injury

Eithriadol - extreme

Drycin - storm

Daroganwyr - forecasters

Disgwyledig - expected

Ysgubo - to sweep

Rhybuddion = warnings

Enbyd - perilous

Mewndirol - inland

Cyflenwad - supply

Gyrru a fi

Cynilo - to save

Ysu - to long (for)

Cerddoriaeth

Nawr ac yn y man - now and again

Bythgofiadwy - unforgettable

Cyfuno - to combine

Llorio - to be overcome (by)

Cymerdawaeth - applause

Torf - crowd

Swyno - to enchant

Arallfydol - out of this world

Iaith arwyddion - sign language

Heintus - catching

Anwyliad - loved one

Tirlithiad - landslide

Uchelbwyntiau - highlights

Isafbwyntiau - lowlights

Lleiafrifol - minority

Goresgyniad conquest

Cnwd - crop

Da byw - cattle

Seiliedig - based (on)

Ymddiried - trust

Cymdeithas Hanes

Saer maen - stone mason

Ysgolhaig - scholar

Llawysgrif - manuscript

Penodol - particular

Bonedd - nobility

Gwrthsefyll - to resist

Dyfeisio - to invent

Seiliedig - based on

Urdd derwyddol - druidic association

Honedig - alleged

Coleddu - to foster

Herio - to challenge

Dilys - genuine

Ymchwil - research